Sinfonia Cymru
sinfonia.cymru
@sinfoniacymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cymuned Sessions: Music for String Quartet

## Featured Music | Y Gerddoriaeth a Gynhwysir

The music in today's concert has been chosen by our violinist Haim. The players will announce the order of the music in between pieces. **Mae'r gerddoriaeth a berfformir yn y cyngerdd heddiw wedi ei dewis gan Haim, ein fiolinydd. Bydd yr offerynwyr yn cyhoeddi trefn y gerddoriaeth rhwng y darnau.**

Joseph Haydn - Quartet in G (Op. 64)
I. Allegro con Brio
II. Menuetto-Allegretto
III. Adagio
IV. Presto

Florence Maunders - Not Getting Out

Wolfgang Amadeus Mozart - Divertimento D 1st mov

Cole Porter arr. Bill Thorpe - Let's Do It

Florence Price - Adoration

Giacomo Puccini - Crisantemi

Henry Purcell - Chacony

Dimitri Shostakovich - Adagio & Allegro

## Meet the Players | Cwrdd â'r Offerynwyr

### Haim Choi (Violin/Ffidil)

Born in Germany, South Korean violinist Haim Choi studied at the Yehudi Menuhin School and the Royal College of Music, where she received full scholarships as an Orpheus Scholar. In 2022, she was awarded the prestigious Tagore Gold Medal, presented by King Charles III, and performed at Buckingham Palace. As founding member and first violinist of the award-winning Salomé Quartet, Haim devised, performed, and served as Music Director for the critically acclaimed multidisciplinary production "Dr Semmelweis" (West End 2023, Bristol Old Vic 2022), collaborating with Tom Morris OBE (Director), Adrian Sutton (Composer) and Sir Mark Rylance (Co-Author & Actor). Outside of Sinfonia Cymru, Haim co-leads the Glyndebourne Sinfonia.

**Ganed Haim Choi, y fiolinydd o dras De Korea, yn yr Almaen, a bu'n astudio yn Ysgol Yehudi Menuhin a'r Royal College of Music, lle derbyniodd ysgoloriaethau llawn fel Ysgolor Orpheus. Yn 2022 enillodd Fedal Aur Tagore, a gyflwynwyd iddi gan y Brenin Siarl III, a bu'n perfformio ym Mhalas Buckingham. Fel aelod gwreiddiol a phrif fiolinydd y Salomé Quartet, enillwyr nifer o wobrau, Haim oedd yn gyfrifol am ddyfeisio a pherfformio'r cynhyrchiad amlddisgyblaethol arobryn "Dr Semmelweis" (West End 2023, Bristol Old Vic 2022), a hi hefyd oedd y Cyfarwyddwr Cerdd, yn cydweithredu gyda Tom Morris OBE (Cyfarwyddwr), Adrian Sutton (Cyfansoddwr) a Syr Mark Rylance (Cyd-awdur ac Actor). Y tu allan i Sinfonia Cymru, mae Haim yn gyd- arweinydd y Glyndebourne Sinfonia**

## Zea Hunt (Violin/Ffidil)

Zea was born in Ireland but at the age of 3 her family moved to Italy where she started playing the violin. Aged 13 she went to study violin at Chetham's School of Music, Manchester, and later completed a Bachelor and Master's degree at the Royal College of Music. She has performed in venues such as Buckingham Palace, Sala Filarmonica in Trento, Bridgewater Hall, and Queen Elizabeth Hall as a soloist, chamber musician and orchestral player. She is a keen chamber musician and has performed with musicians such as Daniel Rowland, Nino Gvetadze, Thomas Carroll, Marcelo Nisinman and Gabor Takacs-Nagy across Switzerland, Corsica, Norway, Holland and Italy.

**Ganed Zea yn Iwerddon, ond pan oedd yn 3 oed symudodd y teulu i'r Eidal, lle y dechreuodd hi chwarae'r ffidil. Yn 13 oed aeth i astudio'r ffidil yn Chetham's School of Music, Manceinion, ac yn ddiweddarach cwblhaodd raddau Bagloriaeth a Meistr yn y Royal College of Music. Mae hi wedi perfformio mewn lleoliadau megis Palas Buckingham, Sala Filarmonica yn Trento, Bridgewater Hall, a'r Queen Elizabeth Hall fel unawdydd, cerddor siambr a cherddor cerddorfaol. Mae hi'n frwd dros gerddoriaeth siambr ac wedi perfformio gyda cherddorion megis Daniel Rowland, Nino Gvetadze, Thomas Carroll, Marcelo Nisinman a Gabor Takacs-Nagy ledled y Swistir, Corsica, Norwy, Yr Iseldiroedd a'r Eidal.**

## Mabon Llŷr Rhyd (Viola/Fiola)

Raised in Dinorwic, north Wales, and a former pupil of Ysgol Tryfan, Bangor, Mabon now lives in London. He studied at the Royal Birmingham Conservatoire and the Guildhall School of Music and Drama in London. He has performed with several leading orchestras, including the BBC National Orchestra of Wales, Britten Sinfonia (as a Guest Principal), Royal Liverpool Philharmonic Orchestra, and London Symphony Orchestra.

**Wedi ei fagu ym mhentref Dinorwig, gogledd Cymru, ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Tryfan, Bangor, mae Mabon bellach yn byw yn Llundain. Astudiodd yn y Royal Birmingham Conservatoire a'r Guildhall School of Music and Drama, Llundain. Mae wedi perfformio gyda nifer o'r prif gerddorfeydd, yn cynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Britten Sinfonia (fel Prif Westai), y Royal Liverpool Philharmonic Orchestra, a'r London Symphony Orchestra.**

## William Clark-Maxwell (Cello/Soddgrwth)

Will began his musical journey as a chorister at St George's Chapel, Windsor Castle. He started learning cello aged 10, and became a principal player in the National Children's Orchestra and National Youth Orchestra. He later studied at the Mozarteum University, Salzburg, and Jesus College, Cambridge, before gaining his Masters (with Distinction) from the Guildhall School of Music. He has performed with English Chamber Orchestra (principal cellist), Sinfonia of London, and John Wilson Orchestra, and as a concerto soloist with the Newbury Symphony and Cambridge University Orchestras. In July 2022 he performed Haydn's D major cello concerto as soloist director with the Britten Sinfonia.

**Dechreuodd Will ei daith gerddorol fel aelod o'r côr yng Nghapel Sain Siôr, Castell Windsor. Dechreuodd ddysgu'r sielo pan oedd yn 10 oed, a daeth yn brif offerynnwr yn y National Children's Orchestra a'r National Youth Orchestra. Yn ddiweddarach bu'n astudio ym Mhrifysgol Mozarteum, Salzburg, a Choleg yr Iesu, Caer-grawnt, cyn ennill ei radd Meistr (gyda Rhagoriaeth) o'r Guildhall School of Music. Mae Will wedi perfformio gyda'r English Chamber Orchestra (prif sielydd), Sinfonia of London, a'r John Wilson Orchestra, ac fel unawdydd concerto gyda'r Newbury Symphony Orchestra a Cherddorfa Prifysgol Caer-grawnt. Ym mis Gorffennaf 2022 perfformiodd Goncerto Haydn yn D fwyaf ar gyfer y sielo fel unawdydd cyfarwyddol gyda'r Britten Sinfonia.**